**Rhif: WG32209**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Dehongli deddfwriaeth Cymru

Ystyried Deddf ddehongli i Gymru

Dyddiad cyhoeddi : 19 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd : Ymatebion erbyn 11 Medi 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Deddf ddehongli gyfoes a phwrpasol i Gymru i ddisodli Deddf Dehongli 1978. |
| **Sut i ymateb** | Anfonwch eich ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy'r e-bost i'r cyfeiriad a ddarperir. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.** |
| **Manylion cyswllt:** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>e-bost: LegislativeCounsel@wales.gsi.gov.uk<br>rhif ffôn: 0300 025 0375 |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i |

ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

Rhagair gan Gwnsler Cyffredinol Cymru ........ 5
RHAN 1: Y GYFRAITH AC ARFERION PRESENNOL A'R DDADL DROS DDIWYGIO ........ 7
Pennod 1: Ffurf a hygyrchedd y gyfraith ........ 7
Pennod 2: Defnyddio Deddfau dehongli a dulliau dehongli eraill ........ 10
Deddfau dehongli – diben a chynnwys ........ 10
Deddfwriaeth arall sy'n llywodraethu sut y dylid dehongli deddfwriaeth ........ 11
Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ........ 11
Deddf Hawliau Dynol 1998 ........ 12
Y ddadl yn erbyn Deddfau dehongli ........ 12
Pennod 3: Deddfau dehongli yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt ........ 14
Deddfau dehongli yn y Deyrnas Unedig ........ 14
Deddf Dehongli yr Alban ........ 14
Deddf Dehongli Gogledd Iwerddon ........ 16
Deddfau Dehongli Eraill ........ 16
Pennod 4: Deddf Dehongli 1978 ........ 17
Y gyfraith y mae Deddf 1978 yn gymwys iddi ........ 17
Cynnwys Deddf 1978 ........ 18
Rheolau craidd yn Neddf 1978 ........ 18
Diffiniadau o eiriau, termau a chysyniadau yn Neddf 1978 ........ 18
Problemau wrth weithredu Deddf 1978 mewn perthynas â Chymru ........ 19
RHAN 2: CYNIGION AR GYFER DIWYGIO ........ 21
Pennod 5: Opsiynau ar gyfer diwygio 1 – diwygio Deddf 1978 ........ 21
Atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn y Gymraeg ........ 21
Diwygiadau posibl eraill i Ddeddf 1978 ........ 22
Pennod 6: Opsiynau ar gyfer diwygio 2 - Deddf ddehongli newydd i Gymru ........ 24
Y berthynas rhwng Deddf ddehongli i Gymru a Deddf 1978 ........ 24
Manteision posibl Deddf ddehongli i Gymru ........ 24
Y mater dwy Ddeddf ........ 25
Atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf ........ 26
Cynnwys Deddf ddehongli i Gymru ........ 28
RHAN 3: DEDDF DDEHONGLI NEWYDD I GYMRU: MODERNEIDDIO AC ARLOESI ........ 29
Model newydd o Ddeddf ddehongli ........ 30

Pennod 7: Newidiadau i ‘reolau craidd’ a allai gael eu gwneud wrth atgynhyrchu effeithiau Deddf 1978 ........ 31
Pennod 8: Darpariaeth newydd a allai gael ei gwneud mewn Deddf ddehongli i Gymru ........ 33
Rheolau am bwerau a nodir yn Neddfau’r Cynulliad Cenedlaethol. ........ 33
Amser ........ 34
Diffiniadau ........ 35
Cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru neu eraill ........ 35
Amrywiol ........ 35
Pennod 9: Materion eraill y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru ........ 36
Materion y Gymraeg ........ 36
Darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a allai gael eu rhoi mewn Deddf ddehongli i Gymru, gydag addasiad neu heb addasiad. ........ 36
Darpariaeth ffurf safonol ........ 37
Asesiadau effaith ........ 39
Atodiad A: Rheolau craidd yn Neddf Dehongli 1978 ........ 40
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ........ 41

## Rhagair gan Gwnsler Cyffredinol Cymru

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae cyfraith Cymru a'n prosesau deddfu wedi aeddfedu, a datblygwyd corff sylweddol o ddeddfwriaeth. Yn y dyfodol bydd y broses hon yn parhau wrth inni basio mwy o gyfreithiau sy'n gymwys i Gymru yn unig, ac wrth i Senedd y DU basio mwy o gyfreithiau sy'n gymwys i Loegr yn unig. Os ydym am barhau i weinyddu cyfiawnder yn briodol ac yn effeithlon yng Nghymru, a chadw ar drywydd y newidiadau sy'n yr arfaeth, bydd hi’n anorfod datblygu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru maes o law.

Mae mwy na 50 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol wedi eu pasio ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael mwy o gymhwysedd yn 2007 ac mae mwy na 4,000 o Offerynnau Statudol wedi eu gwneud er 1999. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb yn awr dros ddeddfu ar draws amrywiaeth eang o feysydd pwnc.

Fel Cwnsler Cyffredinol, fy mhrif rôl innau yw rhoi cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru a sicrhau ei bod yn gweithredu'n gyfreithlon. Ond fel swyddog y gyfraith mae cyfrifoldeb arnaf hefyd i gynnal rheolaeth y gyfraith a'r gyfraith ei hun. Rydw i am i'n cyfreithiau fod yn glir, yn sicr ac yn hygyrch, a hynny’n ddi-dâl. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adeg pan fo mynediad at gyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol yn gyfyngedig. Fy nod i yw rhoi trefn ar y gyfreithiau yr ydym wedi eu hetifeddu a sefydlu dull newydd o ddeddfu yng Nghymru yn y dyfodol – dull a fydd yn rhoi'r dinesydd, fel yr un sy'n defnyddio deddfwriaeth yn y pen draw, yn flaenaf.

Rydw i o'r farn y gallwn ni wireddu'r nod hwn drwy raglen hirdymor a pharhaus o gydgrynhoi’r gyfraith a'i threfnu mewn Codau Deddfwriaethol yn ymwneud a’r meysydd pwnc sydd wedi'u datganoli i Gymru. Rydw i hefyd am wella'r ffordd y mae cyfreithiau yn cael eu cyhoeddi a'u hegluro; a rhaid inni barhau i sicrhau hefyd fod ein cyfreithiau yn cael eu drafftio'n dda ac yn glir.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ymdrin â mater sydd – er ei fod yn cyfrannu at yr uchelgais ehangach – yn fwy technegol ac arbenigol. Er mwyn cynnig sicrwydd ac eglurder, rhaid i ddeddfwriaeth fod yn fanwl ac yn ddyrys o bryd i'w gilydd. Fodd

bynnag, gellir lleihau ar y fath gymhlethdod drwy nodi rhai egwyddorion, rheolau a diffiniadau unwaith fel nad oes angen eu hailadrodd ym mhob cyfraith newydd yr ydym yn ei gwneud. Datblygu Deddf benodol ar ddehongli statudol yw'r ffordd o wneud hyn; nodwedd sy'n gyffredin i awdurdodaethau cyfreithiol ar draws gwledydd y gyfraith gyffredin.

Mae Deddfau o'r fath yn mynd i’r afael ag amrywiaeth o faterion gweithdrefnol ac yn diffinio ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth. Gall hyn helpu i ddatrys ansicrwydd ynghylch ystyr darpariaethau deddfwriaethol penodol. Maent yn cynnwys rheolau dehongli statudol, fel darpariaethau ynghylch pryd y bydd cyfreithiau yn dod i rym, cyfrifo cyfnodau amser, ac effeithiau diddymu, sy'n rhoi sicrwydd cyfreithiol. Un o'u prif ddibenion yw helpu i gadw deddfwriaeth yn fyrrach ac yn fwy cyson.

Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan ein Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Dehongli 1978. Mae'r Ddeddf Senedd y Deyrnas Unedig (DU) hon yn bodoli ers bron i 40 o flynyddoedd ac nid yw'n cydnabod ein bod yn deddfu yn y Gymraeg a'r Saesneg – diffyg y tynnwyd sylw ato gan Gomisiwn y Gyfraith a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Rydw i o'r farn y dylem ddatblygu ein Deddf ddehongli ein hunain – fel a wnaed eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon – sy'n ddwyieithog ac wedi'i theilwra at ein hawdurdodaeth. Mae'r papur ymgynghori hwn yn ystyried sut fyddai orau i fwrw ati i ddatblygu Deddf ddehongli i Gymru a'r materion a fyddai'n codi pe baem ni'n gwneud hynny.

**Mick Antoniw AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

# RHAN 1: Y GYFRAITH AC ARFERION PRESENNOL A'R DDADL DROS DDIWYGIO

> *'A general Interpretation Act can help to shorten and simplify particular Acts of Parliament, to clarify their effects by enacting rules of construction, and to standardise common-form provisions.'*
>
> Adroddiad y Pwyllgor Renton
> ar baratoi deddfwriaeth, 1975[1]

1. Defnyddir Deddfau dehongli i fyrhau a symleiddio deddfwriaeth. Maent yn egluro effaith cyfraith statud drwy sefydlu rheolau dehongli, ac yn byrhau cyfreithiau drwy fabwysiadu darpariaethau safonedig (diffiniadau o eiriau a thermau a ddefnyddir yn gyffredin er enghraifft) nad oes angen iddynt gael eu hailadrodd wedyn. Ar hyn o bryd, mae'r holl gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru[2] yn cael eu dehongli drwy gyfeirio at Ddeddf Senedd y DU, sef Deddf Dehongli 1978 ('Deddf 1978'). Mae'r papur hwn yn ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Deddf ddehongli i Gymru.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar y mater hwn. I helpu i lywio'r ystyriaethau, mae Rhan 1 y papur ymgynghori yn cynnwys cefndir y gyfraith a'r arferion presennol sy'n berthnasol i'r opsiynau ar gyfer diwygio a ystyrir yn Rhannau 2 a 3 y papur, a deunyddiau esboniadol i gyd-fynd â hwy.

3. Yn y Rhan hon, mae Pennod 1 yn esbonio pam mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn yn awr. Mae Pennod 2 yn rhoi esboniad llawnach o Ddeddfau dehongli a dulliau dehongli eraill. Mae Pennod 3 yn edrych ar ddefnyddio Deddfau dehongli yn y DU a thu hwnt. Ym Mhennod 4, ceir trosolwg ac esboniad o'r gyfraith bresennol o dan Ddeddf 1978, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu mewn perthynas â'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

4. Efallai yr hoffai rhai darllenwyr fynd yn syth i Ran 2 lle mae'r cynigion ar gyfer diwygio yn cael eu nodi ym Mhenodau 5 a 6. Mae Penodau 7 i 9 yn Rhan 3 y papur hwn yn rhoi mwy o fanylion ynghylch y darpariaethau penodol y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru.

## Pennod 1: Ffurf a hygyrchedd y gyfraith

5. Mae ffurf y gyfraith, a'i hygyrchedd, yn ganolog i weithrediad effeithiol y gyfraith. Mae'n bwysig bod deddfwriaeth sy'n rhan o'r gyfraith yn hygyrch ac ar ffurf

---

[1] Cmnd. 6053.
[2] Mae paragraff 36 yn nodi'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru.

ddiweddar, a'i bod mor hawdd â phosibl i'w darllen a'i deall. Ystyriwyd ers blynyddoedd lawer sut y gellid gwella ffurf a hygyrchedd y gyfraith.

6. Mae dau adroddiad diweddar wedi ymchwilio i sut y caiff y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru ei gwneud a sut y ceir mynediad ati:

   a) *Deddfu yng Nghymru* (Hydref 2015) – adroddiad gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar amrywiol agweddau ar y ffordd yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu[3]

   b) *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Mehefin 2016) - adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr)[4].

7. Fel ymateb i ganfyddiadau'r adroddiadau hyn, a'r argymhellion sy'n cael eu gwneud ynddynt, mae Cwnsler Cyffredinol Cymru wedi lansio rhaglen beilot o gydgrynhoi, codeiddio a chyhoeddi gwell ar gyfer deddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad Cenedlaethol')[5]. Mae'r papur hwn, sy'n ystyried yr effaith a gaiff gweithredu Deddf 1978 ar hyn o bryd ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, yn rhan o'r rhaglen beilot honno.

8. Mae Deddf 1978 yn rhagflaenu datganoli wrth gwrs, a dim ond yn Saesneg y mae ar gael. Gan gadw'r cyd-destun hwn mewn cof ystyriodd Comisiwn y Gyfraith a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ill dau, pa mor ddymunol fyddai sefydlu Deddf ddehongli i Gymru, gan ystyried yn benodol mai'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n gwneud Deddf o'r fath, ac y byddai ar gael felly yn Gymraeg ac yn Saesneg.

9. Yn ôl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol roedd yna *'werth mewn llunio Deddf Dehongli ar wahân i Gymru er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o ddeddfau Cymru'*[6]. Nodwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith faterion yn ymwneud â'r ffaith mai yn Saesneg yn unig y mae Deddf 1978 ar gael yn ffurfiol, a bod diffyg darpariaeth yn y Gymraeg felly ynghylch dehongli deddfwriaeth Gymraeg. Nid oedd y naill adroddiad na'r llall yn feirniadol o natur na chynnwys Deddf 1978, ond nid ydym yn meddwl ei bod yn ddadleuol dweud bod Deddf

[3] Mae'r adroddiad a dogfennau cysylltiedig ar gael yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9054
[4] Law Com No. 366. Mae'r adroddiad a dogfennau cysylltiedig ar gael yn: http://www.lawcom.gov.uk/project/ffurf-a-hygyrchedd-y-gyfraith-syn-gymwys-yng-nghymru/
[5] Gweler Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Rhagfyr 2016 (ar gael yn http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/rop.aspx?meetingid=4012&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=13/12/2016&endDt=13/12/2016)
[6] Paragraff 176 o adroddiad y Pwyllgor.

1978 yn gymharol hen ffasiwn erbyn hyn a'i bod, o'i chymharu â Deddfau dehongli eraill, yn eithaf cyfyng ei chwmpas.

10. Aeth deng mlynedd heibio ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael pwerau i wneud deddfwriaeth, ac mae'r ffocws diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddeddfu yng Nghymru, ynghyd â'r gydnabyddiaeth o 'gyfraith Cymru' fel cysyniad (gweler adran A2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[7]), yn cynnig cyfle i ystyried y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r modd y dehonglir y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

11. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried felly a ellir gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru drwy:

    a) fynd i'r afael â'r diffyg darpariaethau dehongli yn y Gymraeg yn Neddf 1978

    b) datblygu Deddf ddehongli newydd i Gymru, a fyddai'n gymwys (o leiaf) i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny.

12. Wrth adolygu'r sefyllfa bresennol a'r posibilrwydd o lunio Deddf ddehongli i Gymru, rydym wedi ystyried parhau i gymhwyso Deddf 1978 i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny[8], ac i is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio pwerau (yn ymwneud â materion datganoledig) a roddir iddynt gan Ddeddf Senedd y DU. Nid yw'r papur hwn, fodd bynnag, yn cynnwys unrhyw gynigion sy'n ymwneud â chymhwyso Deddf 1978 i Ddeddfau Senedd y DU sy'n gymwys yng Nghymru, ac ni thrafodir unrhyw beth yn y papur sy'n golygu newid y modd y cymhwysir Deddf 1978 i Ddeddfau Senedd y DU.

[7] Fel a fewnosodwyd gan Ddeddf 2017.
[8] Hynny yw, gorchmynion, rheoliadau, rheolau ac ati.

# Pennod 2: Defnyddio Deddfau dehongli a dulliau dehongli eraill

## Deddfau dehongli – diben a chynnwys

13. Un o’r dulliau a fabwysiadwyd gan ddeddfwrfeydd i geisio gwneud deddfwriaeth yn hygyrch yw Deddfau dehongli. Mae Deddf Dehongli Seland Newydd 1999 yn nodi dibenion y Ddeddf honno yn adran 2:

   a) nodi'r egwyddorion a'r rheolau ar gyfer dehongli deddfwriaeth
   b) byrhau deddfwriaeth
   c) hyrwyddo cysondeb o ran iaith a ffurf y ddeddfwriaeth.

   Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu barn gyffredin am ddiben a rhinweddau Deddfau dehongli, ac rydym ninnau o'r un farn. Dyma oedd barn y Pwyllgor Renton dylanwadol hefyd, fel a nodwyd yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym 1975, *The Preparation of Legislation*[9], a arweiniodd at lunio Deddf 1978.

14. Yn gyffredinol mae Deddfau dehongli yn cynnwys:

   a) set o'r hyn y gellid eu galw yn 'rheolau craidd' sy'n cynnwys amrywiaeth o faterion a allai neu a fydd yn codi wrth ddarllen, dehongli a chymhwyso'r rhan fwyaf, os nad pob darn arall o ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol, mae yna ddau fath o reol:

      i. rheolau y gellir dadlau eu bod yn fater o synnwyr cyffredin, ond sy'n cael eu gosod y tu hwnt i unrhyw amheuaeth drwy gael eu cynnwys mewn Deddf ddehongli

      ii. rheolau sy'n ymwneud â materion technegol yn gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth

   b) rhestr o ddiffiniadau o eiriau, termau a chysyniadau sy'n gyffredin mewn deddfwriaeth, ac sydd drwy rinwedd eu cynnwys mewn Deddf ddehongli yn gymwys i bob darn o ddeddfwriaeth y mae'r Ddeddf yn gymwys iddo ac sy'n cael eu gosod felly y tu hwnt i bob amheuaeth[10].

[9] Cmnd. 6053 a gweler y dyfyniad ar ddechrau Rhan 1 y papur hwn.
[10] Gellid dweud bod rhestr fel hon yn fath o reol graidd (ar y sail bod angen i'r darllenydd ddehongli'r geiriau etc o dan sylw, lle bynnag y bônt yn ymddangos mewn deddfwriaeth, yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf ddehongli), ond oherwydd bod gwahanol faterion yn codi mewn perthynas â llunio rhestr o ddiffiniadau o eiriau etc mewn Deddf ddehongli i Gymru, bydd y papur hwn yn eu hystyried ar wahân.

## Deddfwriaeth arall sy'n llywodraethu sut y dylid dehongli deddfwriaeth

15. Nid Deddfau dehongli yw'r unig Ddeddfau sy'n cynnwys darpariaeth sy'n cael effaith ar sut y dylid dehongli deddfwriaeth.

16. Mae geiriau a thermau yn aml yn cael eu diffinio pan fyddant yn ymddangos gyntaf mewn deddfwriaeth, a bydd y diffiniad hwnnw fel arfer yn benodol i'r ddeddfwriaeth dan sylw. Mae'r rhan fwyaf o Ddeddfau ac is-ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys 'darpariaeth ddehongli', sy'n nodi diffiniadau o eiriau a thermau sy'n benodol i'r Ddeddf neu'r is-ddeddfwriaeth honno; mae'r ddarpariaeth hon fel arfer yn cael ei nodi tua diwedd Deddf neu ar ddechrau is-ddeddfwriaeth. Nid yw’n anghyffredin ychwaith gweld darpariaeth ddehongli ar ddiwedd Rhan o Ddeddf, sy'n mynd i'r afael â geiriau a thermau sy'n codi yn y Rhan honno.

17. Mae yna hefyd Ddeddfau sy'n cynnwys darpariaeth sy'n cael effaith uniongyrchol ar sut y dylid deall y gyfraith ac sydd, oherwydd eu natur, o arwyddocâd cyfansoddiadol. Mae yna ddwy enghraifft benodol sy'n gweithredu mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny: Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

18. Ar wahân i roi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud Deddfau, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys amryw o ddarpariaethau sy'n dylanwadu ar sut y dylid dehongli Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny. Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodedig yn hynny o beth:

    a) un o effeithiau adran 108[11] yw bod deddfwriaeth yn gyfreithlon dim ond os yw'n gydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE), a Siarter Hawliau Dynol Ewrop ('ECHR')

    b) mae adran 154(2) yn darparu bod deddfwriaeth o'r fath i gael ei darllen ‘mor gul ag sy'n ofynnol’ i alluogi iddi gael ei deall, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, fel bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol (sydd hefyd yn golygu ei bod i gael ei darllen fel bod yn gydnaws â chyfraith yr UE a ECHR)

[11] Bydd adran 108 yn cael ei disodli gan adran 108A pan ddaw adran 3 o Ddeddf Cymru 2017 i rym; mae'r hyn a ddywedir yn y paragraff hwn am adran 108 hefyd yn gymwys i adran 108A.

c) mae adran 156(1) yn darparu bod testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth o'r fath i gael eu trin ar y sail bod iddynt statws cyfartal.

Deddf Hawliau Dynol 1998

19. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cael effaith sylweddol ar sut y caiff deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig ei dehongli a'i deall. Er bod adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny, yn gyfreithlon dim ond i'r graddau eu bod yn gydnaws â ECHR, mae adran 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 hefyd yn darparu'n benodol bod rhaid i ddeddfwriaeth o'r fath gael ei darllen a chael effaith mewn ffordd sy'n gydnaws â ECHR. Mae hyn hefyd yn gymwys i Ddeddfau Senedd y DU, ac i is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny.

## Y ddadl yn erbyn Deddfau dehongli

20. Dadleuwyd bod y cysyniad o Ddeddfau dehongli yn ddiffygiol, neu'n broblemus o leiaf[12]. Yn aml, nid ydy eu heffeithiau, ac o bryd i'w gilydd eu bodolaeth hyd yn oed, yn gyfarwydd iawn, gan gynnwys ymhlith ymarferwyr y gyfraith, ac o ganlyniad awgrymir eu bod yn gallu gwneud y gyfraith yn llai hygyrch. Os nad yw person yn gwybod am fodolaeth rheol neu ddiffiniad penodol a nodir mewn Deddf ddehongli, gallai'r person hwnnw gamddeall y ddeddfwriaeth y mae'n ei darllen. Er enghraifft, yn *Craies on Legislation*, nodir bod rhai o'r diffiniadau a geir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn rhoi ystyr benodol ac annisgwyl o dechnegol i ymadrodd, y gallai anwybodaeth ohoni arwain at gamddealltwriaeth difrifol[13].

21. Mae bodolaeth Deddf ddehongli yn golygu, o leiaf, na all darllenydd darn arall o ddeddfwriaeth feithrin dealltwriaeth lawn a manwl gywir o'r ddeddfwriaeth honno heb edrych y tu hwnt iddi.

22. Rydym yn gweld bod dadleuon o'r fath yn bwerus, ond nid ydym yn eu derbyn. Mae cynsail wedi'i gosod ers amser bod angen i ddarllenwyr ystyried y gyfraith a geir y tu hwnt i ddarn unigol o ddeddfwriaeth.

23. Mae gan awdurdodaeth Cymru a Lloegr, fel sydd gan awdurdodaethau eraill, hanes hir o ddefnyddio Deddfau dehongli. Deddf 1850 yr Arglwydd Brougham oedd un o'r cyntaf, ac fe'i dilynwyd gan Ddeddf Dehongli 1889 a gafodd ei chydgrynhoi, ynghyd ag amryw o Ddeddfau eraill, i mewn i Ddeddf 1978. Mae dwy Ddeddf ddehongli arall yn weithredol yn y Deyrnas Unedig (yn yr Alban a

[12] Er enghraifft gweler Robert A Duperron; *Interpretation Acts—Impediments to Legal Certainty and Access to the Law,* Statute Law Rev 2005 26 (1): 64-68.
[13] Greenberg, D (2017) *Craies on Legislation, 11th Ed.* Llundain. Sweet a Maxwell. Ym mhara 22.1.4. Mae'r broblem benodol hon yn cael ei hystyried ymhellach ym Mhennod 4 y papur hwn.

Gogledd Iwerddon), ac mae Deddfau o'r fath yn gyffredin ar draws y Gymanwlad a thu hwnt[14]. Yn y cyd-destun hwn, gellir disgwyl yn rhesymol i'r darllenydd gwybodus fod yn ymwybodol bod angen yn achlysurol ystyried y Ddeddf ddehongli berthnasol.

24. Bydd Deddf ddehongli effeithiol yn cyflawni'r dibenion a nodwyd gan y Pwyllgor Renton: bydd yn byrhau deddfwriaeth ac yn hyrwyddo cysondeb o ran iaith a ffurf y ddeddfwriaeth. Ni ddylid diystyru'r manteision hyn.

25. Rydym yn ystyried, wrth baratoi Deddf ddehongli, fod angen cael cydbwysedd rhwng yr hyn y gellir ei nodi unwaith, at bob diben, mewn Deddf ddehongli, a'r hyn y dylid ei nodi'n llawn ym mhob darn o ddeddfwriaeth. Os caiff y cydbwysedd hwnnw ei daro'n briodol, yn ein barn ni, bydd manteision Deddf ddehongli yn drech nag unrhyw bryderon ynghylch ei defnyddio. Rydym hefyd o'r farn y gellir gwneud mwy i roi gwybod i ddefnyddwyr deddfwriaeth am Ddeddfau dehongli, ac egluro eu heffaith.

[14]Caiff hyn ei drafod yn y Bennod nesaf.

# Pennod 3: Deddfau dehongli yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt

## Deddfau dehongli yn y Deyrnas Unedig

26. Mae tair Deddf ddehongli yn weithredol yn y Deyrnas Unedig:

**Deddf Dehongli 1978**

Mae Deddf 1978 yn gymwys yn bennaf i:

- Ddeddfau Senedd y DU
- Deddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan ddefnyddio pwerau a roddwyd gan Senedd y DU (p'un a ydynt wedi'i gwneud ai peidio gan Weinidog y Goron)
- Deddfau a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol
- Deddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae adrannau 22, 23, 23A, 23B a 24 yn ymwneud â chymhwyso Deddf 1978 i'r amrywiol fathau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar draws y Deyrnas Unedig.

I raddau cyfyngedig yn unig y gellir cymhwyso Deddf 1978 i’r hyn y cyfeiria ati fel 'deddfwriaeth Gogledd Iwerddon', a Deddfau Senedd yr Alban ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny.

Mae Deddf 1978 hefyd yn gymwys i Fesurau Eglwys Loegr.

**Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954**

Mae'n gymwys i Ddeddfau sy'n cael eu gwneud gan Gynulliad Gogledd Iwerddon (a chyn hynny, gan Senedd Gogledd Iwerddon), ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan Ddeddfau o'r fath.

**Rhan 1 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010**

Mae'r Ddeddf hon yn gymwys i Ddeddfau Senedd yr Alban, ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan Ddeddfau o'r fath.

<u>Deddf Dehongli yr Alban</u>

27. Ar ôl i Ddeddf Dehongli yr Alban 1998 ddod i rym, roedd dehongli Deddfau Senedd yr Alban ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud oddi tanynt yn ddarostyngedig i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Cyhoeddi a Dehongli etc Ddeddfau Senedd yr Alban) 1999[15] (‘y Gorchymyn’). Gorchymyn trosiannol oedd hwn a wnaed gan Lywodraeth y DU. Roedd y Gorchymyn yn atgynhyrchu'r rhan fwyaf o effeithiau sylweddol Deddf 1978.

28. Ddechrau 2009 ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban â'r cyhoedd ar Fil drafft i ddisodli'r Gorchymyn, ar y sail bod Llywodraeth yr Alban yn awr yn teimlo, ar ôl

[15] OS 1999/1379.

10 mlynedd o ddatganoli, ei bod hi'n amser i'r Senedd gymryd perchenogaeth o'r materion hyn[16].

29. Arweiniodd y Bil drafft at Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 (‘Deddf Dehongli yr Alban’). Rydym wedi ystyried y Ddeddf hon yn ofalus a'r camau a gafodd eu cymryd i'w pharatoi. Cafodd Deddf Dehongli yr Alban ei drafftio yn dilyn datganoli, ac mae'r prosesau a arweiniodd at ei llunio, a natur a chynnwys y Ddeddf ei hun, yn berthnasol.

30. Rydym yn nodi nad yw Deddf Dehongli yr Alban yn gwyro'n llwyr oddi wrth y Gorchymyn, ac yn fwy na hynny ei bod yn eithaf tebyg o ran ei heffaith i Ddeddf 1978. Mae dau 'newid mawr o sylwedd' (fel y'u gelwir gan Lywodraeth yr Alban):

    a) cynnwys darpariaeth newydd sy'n datgan mai dim ond os yw'r Ddeddf yn dweud hynny'n unswydd y mae'r Goron yn rhwymedig gan Ddeddf Senedd yr Alban

    b) ymestyn y ddarpariaeth ynghylch cyflwyno dogfennau drwy'r post (y rhoddir sylw iddi yn adran 7 o Ddeddf 1978), i gynnwys tri gwahanol fath o gyflwyno, gan gynnwys drwy ddulliau electronig

31. Ar wahân i'r newidiadau hyn, roedd Deddf Dehongli yr Alban yn cynnwys rhai mân newidiadau i egluro geiriad a diweddaru effaith y Gorchymyn trosiannol. Yn benodol, nid yw'r Ddeddf yn atgynhyrchu'r darpariaethau a ganlyn (yr oeddynt wedi'u cynnwys, ill dwy, yn y Gorchymyn, ac sydd hefyd wedi'u cynnwys yn Neddf 1978):

    a) y ddarpariaeth ynghylch mesur pellter: cafodd hon ei hepgor ar y sail y'i defnyddiwyd mor anaml fel y byddai'n fwy priodol gwneud darpariaeth benodol yn ôl yr angen

    b) y ddarpariaeth a oedd yn datgan y dylid darllen unrhyw gyfeiriad at y Tëyrn (fel 'y Frenhines', 'y Brenin', 'Ei Mawrhydi', 'Ei Fawrhydi' etc) fel cyfeiriad at y person sy'n Dëyrn ar yr adeg y darllenir y Ddeddf: cafodd hon ei hepgor gan fod Llywodraeth yr Alban wedi dod i'r casgliad bod rhaid y byddai hyn yn digwydd hyd yn oed heb gyfraith benodol i'r perwyl hwnnw.

---

[16] Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Bill: Consultation Paper, 12 Ionawr 2009. Ar gael yn: http://www.gov.scot/Publications/2009/01/1

Deddf Dehongli Gogledd Iwerddon

32. Mae Deddf Ddehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 (‘Deddf Dehongli Gogledd Iwerddon’) yn gymharol hen erbyn hyn. Mae'n amlwg yn rhagflaenu Deddf 1978, ac nis ystyriwyd y trefniadau datganoli presennol wrth ei pharatoi.

33. O'r herwydd, canolbwyntiom yn bennaf ar y darpariaethau yn Neddf Dehongli Gogledd Iwerddon nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn Neddf 1978, ond a allai fod yn ddefnyddiol mewn Deddf ddehongli newydd i Gymru. Nodom hefyd y sylwadau ym Mhennod 19 o adroddiad Pwyllgor Renton[17] a sylwadau William Leitch (cyn-Brif Ddrafftsmon Seneddol Gogledd Iwerddon)[18] sy'n awgrymu y dylid efallai fod wedi cynnwys rhai o ddarpariaethau Deddf Dehongli Gogledd Iwerddon yn Neddf 1978.

## Deddfau Dehongli Eraill

34. Rydym hefyd wedi ystyried nifer o Ddeddfau dehongli eraill o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Iwerddon; Seland Newydd; Canada; a thalaith De Cymru Newydd, Awstralia[19]. Rydym yn cytuno â chasgliad Llywodraeth yr Alban bod Deddfau Iwerddon a Seland Newydd (hyd at bwynt, gan ystyried y gwahaniaethau yn hanes, cyfraith ac arferion pob un o'r awdurdodaethau hyn) yn fodelau defnyddiol o ran cynnwys ac fel enghreifftiau o iaith ddeddfwriaethol gyfoes[20].

---

[17] Cmnd. 6053.

[18] *Interpretation and the Interpretation Act 1978,* Statute Law Rev (1980) 1 (1): 5-13.

[19] Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ei hastudiaeth gymharol ei hun o Ddeddfau dehongli, a daeth i'r casgliad a ganlyn (fel a nodir ar dudalen 6 o *Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Bill: Consultation Paper*, 12 Ionawr 2009), yr ydym ninnau yn cytuno ag ef: *‘Along with its predecessor - the Interpretation Act 1889 - the 1978 Act has been tremendously influential in shaping the form and content of Interpretation Acts which are operative throughout much of the English-speaking parts of the world. This is particularly the case in those countries which are or were part of the Commonwealth…many of those Acts contain provisions that are very much modelled on those in the 1978 Act. Those Acts have been amended and replaced over the years, however, and quite a few now include provisions that are not to be found in the 1978 Act.’*

[20] *Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Bill: Consultation Paper*, 12 Ionawr 2009: gweler tudalen 7.

# Pennod 4: Deddf Dehongli 1978

## Y gyfraith y mae Deddf 1978 yn gymwys iddi

35. Yn y Bennod flaenorol, nodom fod tair Deddf ddehongli yn gymwys ar draws y Deyrnas Unedig. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu Deddf ddehongli (er gwaetha'r corff o gyfreithiau neilltuol sy'n cael ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a gymhwysir yng Nghymru yn unig), ac mae gan yr Alban ac Iwerddon eu Deddfau Dehongli eu hunain.

36. Mae'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn cynnwys, yn fras, y mathau a ganlyn o ddeddfwriaeth:

   a) holl Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol (a holl Fesurau'r Cynulliad Cenedlaethol, a wnaed cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pŵer i wneud Deddfau yn 2011)

   b) pob is-ddeddfwriaeth (hynny yw, gorchmynion, rheoliadau, rheolau ac ati) a wneir dan y Deddfau (a'r Mesurau) hynny, sydd yn gyffredinol yn cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru[21]

   c) holl Ddeddfau Senedd y DU sy'n gymwys yng Nghymru (y mae rhai ohonynt hefyd yn gymwys yn Lloegr)

   d) pob is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud dan y Deddfau hynny:

      i. sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru[22]
      ii. sy'n cael ei gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU[23] ac sy'n gymwys yng Nghymru.

37. Mae'r gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr yn cynnwys, yn fras, y mathau a ganlyn o ddeddfwriaeth:

   a) holl Ddeddfau Senedd y DU sy'n gymwys yn Lloegr (y mae rhai ohonynt hefyd yn gymwys yng Nghymru)

   b) pob is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud dan y Deddfau hynny ac:

---

[21] Mae gan rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru hefyd bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gall cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol wneud gorchmynion mewn amryw o amgylchiadau. Mae Deddf 1978 yn gymwys mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan gyrff o'r fath fel y mae'n gymwys i weddill y ddeddfwriaeth a nodir yn y paragraff hwn.
[22] Gweler y troednodyn uchod sydd hefyd yn gymwys yma.
[23] Neu aelod arall o Lywodraeth y DU sydd wedi'i rymuso i wneud is-ddeddfwriaeth benodol.

i. sy'n cael ei gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU[24]
ii. sy'n gymwys yn Lloegr (p'un ai ydy'n gymwys yng Nghymru hefyd ai peidio).

38. Mae Deddf 1978 yn gymwys i'r holl ddeddfwriaeth a nodir yn y ddau baragraff blaenorol.

39. Fel a nodwyd ym Mhennod 1, nid ydym yn awgrymu unrhyw newid i'r modd y cymhwysir Deddf 1978 i Ddeddfau Senedd y DU. Rydym o'r farn y dylid parhau i gymhwyso Deddf 1978 i'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys lle y bo'n gymwys yng Nghymru yn unig.

40. Gallai Deddf 1978 barhau'n gymwys i fathau penodol o ddeddfwriaeth sydd ar gael yn y Gymraeg, er enghraifft is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan Ddeddfau Senedd y DU. Mae angen inni ystyried ymhellach i ba raddau y gallai problemau godi petai is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i wahanol Ddeddf ddehongli i'r Ddeddf Senedd y DU y'i gwnaed oddi tani.

## Cynnwys Deddf 1978

<u>Rheolau craidd yn Neddf 1978</u>

41. Mae Deddf 1978 yn cynnwys amrywiaeth o reolau craidd. Er enghraifft, mae adran 18 o Ddeddf 1978 yn darparu os yw rhywbeth yn drosedd o dan ddwy Ddeddf, mai unwaith yn unig y gellir cosbi troseddwr am unrhyw weithred neu anweithred benodol. Mae Atodiad A yn cynnwys tabl o'r rheolau craidd sy'n gymwys mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny.

<u>Diffiniadau o eiriau, termau a chysyniadau yn Neddf 1978</u>

42. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn nodi rhestr o eiriau a thermau sy'n gymharol gyffredin mewn deddfwriaeth. Mae'n hawdd deall llawer ohonynt heb droi at y diffiniadau yn Neddf 1978, ond am resymau technegol mae angen nodi'r diffiniad yn y gyfraith. Ymhlith yr enghreifftiau y mae:

a) 'rheoliadau adeiladu' (*'building regulations'*)
b) 'blwyddyn ariannol' (*'financial year'*)
c) 'incwm PAYE' (*'PAYE income'*).

[24] Gweler y troednodyn uchod. Sylwer, fel yng Nghymru, mae gan rai cyrff cyhoeddus bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

43. Ceir rhai diffiniadau hefyd o eiriau a thermau sydd, yn ôl *Craies on Legislation*, yn rhoi ystyr benodol ac annisgwyl o dechnegol i ymadrodd, y gallai anwybodaeth ohoni arwain at gamddealltwriaeth difrifol[25]. Ymhlith yr enghreifftiau y mae:

a) 'tir' (*'land'*) (sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau, tir a orchuddiwyd gan ddŵr ac ystadau, buddiannau mewn tir a hawliau dros dir)
b) 'person' (*'person'*) (sy'n cynnwys cyrff neu bersonau corfforaethol neu anghorfforedig)
c) 'deddfiad' (*'enactment'*) (nad yw'n cynnwys deddfiadau gan Senedd yr Alban).

44. Mae Adran 5 o Ddeddf 1978 (sy'n cyflwyno Atodlen 1) yn darparu, mewn perthynas ag unrhyw Ddeddf, bod y diffiniadau yn Atodlen 1 yn gymwys onid yw bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl datgymhwyso'r diffiniadau yn Atodlen 1 mewn perthynas â darn o ddeddfwriaeth, naill ai drwy fynegi hynny'n unswydd yn y ddeddfwriaeth, neu drwy oblygiad (er enghraifft, os yw Deddf yn darparu bod 'blwyddyn ariannol' yn y Ddeddf hon yn golygu'r cyfnod o 12 mis yn dod i ben ar 31 Tachwedd, yr unig gasgliad y gellir dod iddo yw bod y diffiniad yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 wedi ei ddatgymhwyso).

45. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 1978 yn cymhwyso rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf honno i ddeddfwriaeth a gafodd ei phasio cyn i'r Ddeddf ei hun ddod i rym. Nid yw'r Atodlen hon yn berthnasol i ddehongli Deddfau (neu Fesurau) y Cynulliad Cenedlaethol nac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud oddi tanynt. Mae hyn yn wir hefyd yn achos Atodlen 3, sy'n diddymu ystod o ddeddfwriaeth.

## Problemau wrth weithredu Deddf 1978 mewn perthynas â Chymru

46. Mae yna amryw o broblemau yn gysylltiedig â gweithredu Deddf 1978 i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae rhai o'r problemau, ond nid pob un ohonynt, yn ymwneud â'r ffaith bod rhywfaint o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r problemau hyn yn cynnwys:

a) Nid yw Deddf 1978 wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg (o leiaf, nid mewn unrhyw ffordd ag iddi effaith gyfreithiol). Mae hyn yn rhwystr i unrhyw un sydd am ddeall testunau Cymraeg deddfwriaeth yn llawn heb droi at y testunau Saesneg. Mae dwy agwedd i'r broblem hon:

[25] Greenberg, D (2017) *Craies on Legislation, 11$^{th}$ Ed.* Llundain. Sweet a Maxwell. Ym mhara 22.1.4.

i. nid yw'r rheolau craidd ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ar gael yn Gymraeg, ac mae hyn yn cyfyngu ar hygyrchedd testun Cymraeg y ddeddfwriaeth honno

ii. yn niffyg diffiniadau Cymraeg cyfatebol o'r geiriau, ymadroddion a chysyniadau a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 er mwyn deall yn llawn eiriau neu ymadroddion Cymraeg penodol mewn deddfwriaeth, rhaid troi at destun Saesneg yr un ddeddfwriaeth, cyn troi at Ddeddf 1978.

Ymddengys bod y materion hyn yn mynd yn groes i ysbryd adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n dweud bod testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth i gael eu trin ar y sail eu bod o statws cyfartal.

b) Mae angen darllen a chymhwyso adran 23B o Ddeddf 1978 i ddeall sut y mae gweddill y Ddeddf honno yn gweithredu mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y Deddfau hynny, ac nid yw gweithredu adran 23B yn arwain at y canlyniad mwyaf eglur posibl.

c) Nid yw rhai o'r geiriau a'r termau a ddiffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn berthnasol i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn unig (er enghraifft ‘bwrdeistref Llundain’ (*'London borough'*)), felly gellir dadlau nad yw'n ddefnyddiol iawn eu bod wedi'u cynnwys.

d) Nid yw Deddf 1978 mor glir a hygyrch ag y gallai fod. Mae rhai materion penodol yn gysylltiedig â'r Ddeddf honno hefyd; mae rhai o'r darpariaethau yn amwys neu wedi achosi problemau wrth ymarfer, gellir dadlau bod rhai ohonynt yn ddiangen, ac mae rhai ohonynt yn syml wedi dyddio (rhoddir ystyriaeth bellach i'r materion hyn ym Mhennod 7).

e) Mae datblygiadau mewn ymarfer deddfwriaethol, y Deddfau Dehongli newydd sydd wedi'u paratoi mewn awdurdodaethau eraill a newidiadau technolegol, wedi dangos y gall Deddf ddehongli gynnig cyfle i lunio darpariaeth newydd, arloesol o bosibl, sydd o gymorth i bob un sy'n gweithio gyda deddfwriaeth. Mae amrywiaeth o Ddeddfau Dehongli mewn awdurdodaethau eraill erbyn hyn sy'n cynnwys gwahanol ddarpariaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Neddf Dehongli 1978 ond a allai wneud Deddf ddehongli yn llawer mwy defnyddiol (gweler Pennod 8).

# RHAN 2: CYNIGION AR GYFER DIWYGIO

47. Yn y Rhan hon rydym yn nodi'r opsiynau ar gyfer newid. Er bod amrywiol ffyrdd o ddiwygio'r gyfraith yn ymwneud â dehongli deddfwriaeth yng Nghymru, gellir eu crynhoi mewn dau opsiwn sylfaenol:

- diwygio Deddf 1978 ei hun i fynd i'r afael â'r diffyg ddarpariaeth ddehongli yn y Gymraeg, yn arbennig y ddarpariaeth a geir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, sy'n nodi diffiniadau o amrywiol eiriau a thermau (a ystyrir ym Mhennod 5)

- llunio Deddf ddehongli newydd i Gymru (Pennod 6).

48. Mae'n bwysig cadw mewn cof **nad yw'r opsiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd**. Mae cryfderau, gwendidau a chyfyngiadau i'r ddau opsiwn ond mae'n bosibl rhagweld diwygio a fyddai'n golygu diwygio Deddf 1978 yn unig, llunio Deddf ddehongli newydd yn unig, neu gyfuniad o'r ddau.

49. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r diffyg Atodlen 1 Gymraeg gyfatebol, naill ai drwy ddiwygio Deddf 1978 ei hun, neu drwy wneud darpariaeth mewn Deddf ddehongli i Gymru a fyddai'n gymwys i ddeddfwriaeth Gymraeg y byddai Deddf 1978 yn parhau'n gymwys iddi.

50. Fodd bynnag, os eir ati i ddiwygio'n sylweddol y modd y dehonglir deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, rydym o'r farn y dylid gwneud hynny drwy Ddeddf ddehongli ar wahân ar gyfer Cymru.

51. Mae Rhan 3 y papur hwn yn ystyried y ddarpariaeth newydd y gellid ei chynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru.

## Pennod 5: Opsiynau ar gyfer diwygio 1 – diwygio Deddf 1978

Atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn y Gymraeg

52. Yn ein barn ni, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu mewn perthynas â dehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy lunio Deddf ddehongli i Gymru (fel a ystyrir yn y Bennod nesaf), dylai'r ddeddfwriaeth honno fynd i'r afael â'r diffyg fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 gyfan i Ddeddf 1978. Gellid datrys hyn mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys drwy ddatgymhwyso Atodlen 1 a gwneud darpariaeth newydd a fyddai'n rhan o Ddeddf ddehongli i Gymru neu, petai Deddf 1978 yn parhau'n gymwys i unrhyw

fath o ddeddfwriaeth Gymraeg, drwy fewnosod fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ei hun.

53. Y brif ddadl o blaid diwygio Deddf 1978 fel hyn yw y byddai'n datrys diffyg allweddol o ran dehongli unrhyw ddeddfwriaeth Gymraeg y byddai’r Ddeddf honno yn parhau’n gymwys iddi (ond dim ond hyd at bwynt, gan fod rhaid o'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn croesgyfeirio at Ddeddfau eraill sydd ar gael yn Saesneg yn unig[26]).

54. Byddai hyn hefyd yn rhoi'r Gymraeg mewn darn allweddol o ddeddfwriaeth Senedd y DU, sy'n llywodraethu sut y dylid darllen a deall y gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

55. Petai Deddf 1978 yn cael ei diwygio i gynnwys cyfieithiad o Atodlen 1 (neu pe buasem yn ymdrin â’r diffyg fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 mewn ffordd arall), nid ydym yn meddwl y byddai'n fuddiol gwyro oddi wrth cyfieithiad uniongyrchol o gynnwys yr Atodlen honno. Byddai hyn yn golygu rhagor o wahaniaethau sylweddol rhwng gweithredu'r Ddeddf honno mewn perthynas â Deddfau Senedd y DU ac mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn meddwl y byddai hyn yn ychwanegu at gymhlethdod Deddf 1978 a gallai achosi dryswch i ddarllenwyr. Os yw'r gyfraith sy'n llywodraethu'r modd y dehonglir deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru i gael ei diwygio'n sylweddol, y ffordd orau o ddiwygio fyddai drwy Ddeddf ddehongli newydd, neilltuol i Gymru (a ystyrir yn y Bennod nesaf)

56. Mae hyn yn golygu er bod amryw o ddarpariaethau yn Atodlen 1 nad ydynt yn gyffredinol yn berthnasol mewn perthynas â Chymru, byddem yn eu cynnwys yn y cyfieithiad er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith. Ac am yr un rheswm ni fuasem yn gallu diffinio unrhyw dermau newydd nad ydynt yn ymddangos yn Saesneg yn Atodlen 1, er eu bod efallai'n codi'n rheolaidd y gyfraith sy'n gymwys i Gymru.

**Cwestiwn 1: A ddylem fewnosod atgynhyrchiad o Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg yn y ddeddf honno neu a ddylem geisio cymhwyso Deddf ddehongli i Gymru i gymaint o ddeddfwriaeth Gymraeg â phosibl?**

Diwygiadau posibl eraill i Ddeddf 1978

57. Rydym wedi ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi o'r ffaith nad yw'r darpariaethau yn Neddf 1978 sy'n pennu'r rheolau craidd wedi eu nodi yn y

[26] Er enghraifft, diffinnir ‘ardal Heddlu’ (‘*police area*’) drwy gyfeiriad at Ddeddf yr Heddlu 1996, felly rhaid troi at y Ddeddf honno i ddeall y diffiniad yn llawn.

Gymraeg (o leiaf, nid mewn ffordd ag iddi effaith gyfreithiol). Mae amrywiol ddulliau o fynd i'r afael â'r mater hwn, gan gynnwys drwy ddiwygio Deddf 1978 i fewnosod cyfieithiad o'r rheolau craidd. Rydym yn bwriadu ystyried y dull hwn ymhellach, ac atebion posibl eraill i'r mater hwn.

# Pennod 6: Opsiynau ar gyfer diwygio 2 - Deddf ddehongli newydd i Gymru

## Y berthynas rhwng Deddf ddehongli i Gymru a Deddf 1978

58. Mae'r bennod hon yn ystyried y posibilrwydd o Ddeddf ddehongli ar wahân ar gyfer Cymru, a fyddai, ar y lleiaf, yn gymwys i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny. Rydym yn bwriadu ystyried ymhellach goblygiadau cymhwyso Deddf ddehongli i Gymru i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bwerau (yn ymwneud â materion datganoledig) a roddir iddynt gan Ddeddfau Senedd y DU.

59. Rydym o’r farn bod Deddf ddehongli i Gymru’n cynnig cyfle am newid a fyddai’n sefydlu deddf hygyrch a modern, a allai gael effaith gadarnhaol ddiriaethol ar unrhyw un sy’n darllen ac yn defnyddio deddfwriaeth sy’n gymwys yng Nghymru. Rydym o’r farn, er hynny, y byddai angen i Ddeddf ddehongli atgynhyrchu effaith llawer o'r darpariaethau yn Neddf 1978, nid lleiaf am ei bod yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw Ddeddf ddehongli. Hefyd, oherwydd bodolaeth yr hyn a elwir yn y papur hwn yn ‘fater dwy Ddeddf’ (a ystyrir isod), mae angen ystyried yn ofalus unrhyw wyro oddi wrth effaith Deddf 1978, neu unrhyw ychwanegiad ati, mewn perthynas â Chymru.

## Manteision posibl Deddf ddehongli i Gymru

60. Dywedodd Comisiwn y Gyfraith mai unig fantais Deddf ddehongli sydd i bob pwrpas yn atgynhyrchu'r rheolau a gynhwysir yn Neddf 1978 fyddai creu testun sy'n nodi'r rheolau hynny yn Gymraeg[27]. Rydym o'r farn bod y fantais hon yn sylweddol, ac yn rheswm ynddo'i hun dros roi ystyriaeth i greu Deddf ddehongli i Gymru, Er hynny, rydym yn credu bod manteision posibl pellach, sydd, fe ellid dadlau, yn drech nag anfanteision posibl cael dwy Ddeddf ddehongli ar waith yng Nghymru (gweler ystyriaeth o'r mater dwy Ddeddf isod):

    a) Byddai'n arwain at Ddeddf ddehongli fodern, clir a hygyrch, a fyddai yn ei thro yn golygu bod y gyfraith y byddai'r Ddeddf ddehongli yn gymwys iddi yn fwy hygyrch.

    b) Byddai'r Ddeddf ddehongli sy'n llywodraethu Deddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny yn bodoli yn Gymraeg.

[27]Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 10.58.

c) Byddai'n cynnig cyfle i gynnwys darpariaeth newydd ac arloesol o bosibl, y tu hwnt i'r hyn a gynhwysir yn Neddf 1978.

d) Y Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n cymryd perchnogaeth dros y gyfraith sy'n llywodraethu sut y bwriedir dehongli'r ddeddfwriaeth hon.

e) Byddai'r Ddeddf, yn wahanol i Ddeddf 1978, yn cynnwys darpariaeth yn unig sy'n berthnasol i i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

f) Ni fyddai darpariaethau afraid yn Neddf 1978 yn cael eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru[28].

g) Byddai creu'r Ddeddf yn help i godi ymwybyddiaeth o berthnasedd y Ddeddf ddehongli, ymhlith pobl sydd â diddordeb o leiaf.

| |
|---|
| **Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â manteision posibl Deddf ddehongli i Gymru a nodir yn y papur ymgynghori hwn?** |

## Y mater dwy Ddeddf

61. Mae'r mater dwy Ddeddf yn codi am y byddai Deddf ddehongli i Gymru yn gymwys yn unig i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny (ac rydym yn ystyried a ddylai fod yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bwerau (yn ymwneud â materion datganoledig) a roddir iddynt gan ddeddfau Senedd y DU). Byddai Deddf 1978 yn parhau'n gymwys i holl Ddeddfau Senedd y DU, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys yng Nghymru (ac fe allai barhau i fod yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Deddfau hynny). Beth bynnag, mae'r ffaith y byddai'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru'n ddarostyngedig i ddwy Ddeddf ddehongli'n creu'r posibilrwydd y gallai person ddibynnu ar y Ddeddf ddehongli anghywir.

62. Yn arbennig, gallai'r mater dwy Ddeddf beri dryswch mewn sefyllfa lle mae un o Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol (Deddf A) yn mewnosod testun newydd yn un o Ddeddfau Senedd y DU (Deddf B). Yn y sefyllfa hon byddai Deddf A yn ddarostyngedig i Ddeddf Dehongli Cymru, tra byddai'r testun sy'n cael ei fewnosod i Ddeddf B yn ddarostyngedig i Ddeddf 1978 yn y pen draw.

63. Yn olaf, rydym yn ymwybodol y bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i ryngweithiad Deddf 1978 â Deddf ddehongli i Gymru. Am fod Cymru a Lloegr gyda'i gilydd yn

[28] Ystyrir darpariaethau unigol Deddf 1978 sy'n addas ar gyfer newid pan gânt eu dwyn drosodd i Ddeddf Ddehongli i Gymru yn y Bennod nesaf.

ffurfio un awdurdodaeth, mae cryn dipyn o ddeddfwriaeth bresennol sy'n gymwys yn y ddwy wlad ac mae angen yn aml i Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio Deddfau Senedd y DU. Mae hyn yn golygu y bydd angen cymryd i ystyriaeth rhyngweithiad Deddf 1978 ac unrhyw Ddeddf ddehongli i Gymru wrth ddrafftio'r Ddeddf ddehongli i Gymru, ac wedi hynny wrth ei rhoi ar waith.

64. Serch hynny, nid ydym yn credu bod y mater dwy Ddeddf o reidrwydd yn negyddu manteision posibl cael Deddf ddehongli i Gymru. Mae sefyllfa debyg yn codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn deillio'n anochel, fwy neu lai, ym mhob un o fodelau datganoli presennol y DU, o gael Deddf ddehongli ‘datganoledig’ ar waith ochr yn ochr â Deddf 1978. Nid ydym yn ymwybodol bod hyn wedi achosi unrhyw broblemau penodol yn y naill neu'r llall o'r awdurdodaethau hyn.

Atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf

65. Yn ein barn ni, po leiaf y bydd Deddf ddehongli newydd i Gymru yn gwyro oddi wrth Ddeddf 1978, lleiaf dyrys yn y byd y bydd y mater dwy Ddeddf yn ymarferol. Er hynny, mae creu Deddf o'r fath yn cynnig cyfle ar gyfer darpariaeth newydd, ac i wneud newidiadau i'r system bresennol, na ddylid eu diystyru. Rydym felly wedi edrych ar nifer o ffyrdd posibl o gyfyngu ar y mater dwy Ddeddf.

66. Cyn ystyried y rhain ymhellach, mae'n werth nodi bod Deddfau dehongli fel rheol yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y maent yn gymwys i ddeddfwriaeth arall[29]. Mae defnyddio'r ddarpariaeth hon yn golygu nad oes angen dweud dim mewn unrhyw Ddeddf arall am gymhwyso'r Ddeddf ddehongli berthnasol.

67. Mae dulliau o gyfyngu ar effeithiau posibl y mater dwy Ddeddf yn cynnwys y canlynol (yn ogystal â lleihau cymhwysiad Deddf 1978 i’r gyfraith sy’n gymwys yng Nghymru i’r graddau mwyaf posibl):

   a) **Defnyddio nodiadau esboniadol:** gellid sefydlu arfer mewn nodiadau esboniadol[30], fel bod cofnod yn y dyfodol yn y Nodiadau ar gyfer Deddf sy'n ei gwneud yn glir pa Ddeddf sy'n gymwys. Ni fyddai'r esboniad, er hynny, ar wyneb y Ddeddf o dan sylw, sy'n golygu y gallai gael ei golli.

   b) Defnyddio darpariaethau **‘cyfeirio’**: gallai pob Deddf gynnwys darpariaeth (efallai yn yr adran ddehongli a gynhwysir yn y mwyafrif o

[29] Gweler adrannau 22, 23 a 23B o Ddeddf 1978, sy'n nodi sut y mae'r Ddeddf honno'n gymwys i Senedd y DU a'r Cynulliad, ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.
[30] Cyhoeddir nodiadau esboniadol ochr yn ochr â Deddfau ar legislation.gov.uk. Mewn is-ddeddfwriaeth, mae'r nodyn esboniadol fel rheol yn rhan o'r ddeddfwriaeth ei hun.

Ddeddfau) sy'n datgan yn benodol pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys iddi. Ni fyddai gan y ddarpariaeth gyfeirio'r effaith gyfreithiol o gymhwyso'r Ddeddf ddehongli, gan yr ymdrinnid â hyn yn y Ddeddf ddehongli ei hun. Mae hyn yn golygu y gellid dadlau y byddai'r ddarpariaeth gyfeirio yn afraid, a bod gan ddarpariaethau afraid neu ddiangen y potensial i achosi problemau[31]; yn enwedig, os nad oedd y ddarpariaeth gyfeirio yn cael ei chynnwys mewn darn penodol o ddeddfwriaeth, am unrhyw reswm, pan fwriedid i'r Ddeddf ddehongli fod yn gymwys iddi. Gallai hyn beri dryswch i ddarllenydd a allai feddwl, gan fod y ddarpariaeth gyfeirio ar goll o'r Ddeddf, nad oedd y Ddeddf ddehongli yn gymwys iddi.

c) **Gwrthdroi'r dulliau arferol o gymhwyso Deddf ddehongli:** yn lle cael darpariaeth mewn Deddf ddehongli i Gymru yn nodi'r ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddi, byddai modd yn hytrach ddarparu na fydd Deddf Dehongli Cymru yn gymwys ond i'r Deddfau hynny ac i ddeddfwriaeth arall sy'n cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso'r Ddeddf ddehongli yn benodol. Byddai hyn yn golygu y byddai'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys datganiad â grym cyfreithiol sy'n angenrheidiol ac yn glir, ac a fyddai'n dweud wrth y darllenydd pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys. Ni fyddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n darllen y Ddeddf wybod ymlaen llaw bod y Ddeddf ddehongli yn gymwys i'r Ddeddf yr oeddent yn ei darllen. Ond byddai angen i'r ddarpariaeth gymhwyso gael ei chynnwys ym mhob un o Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac o bosibl yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny. Byddai angen inni ystyried yr ymagwedd hon ymhellach mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan Ddeddf Senedd y DU, petai Deddf ddehongli i Gymru'n gymwys i unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.

d) **Defnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales**[32] : yn fwy cyffredinol, yn arbennig o gofio nad yw ymwybyddiaeth o gymhwysiad Deddfau dehongli yn eang, gellid darparu deunydd esboniadol i ddarllenwyr deddfwriaeth yn esbonio effaith Deddf ddehongli i Gymru a'r berthynas rhyngddi a Deddf 1978.

| |
|---|
| **Cwestiwn 3: Pa un o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf fyddai fwyaf defnyddiol yn eich barn chi i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth?** |

[31] Greenberg, D (2017) *Craies on Legislation, 11th Ed.* Llundain. Sweet and Maxwell. Gweler paragraffau 81.12 a 8.1.13 sy'n ystyried y dywediad *'unnecessary words go septic'.*
[32] Mae'r wefan hon yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ac yn darparu gwybodaeth am drefniadau cyfansoddiadol Cymru a chyfreithiau a wneir yng Nghymru.

**Cwestiwn 4: A ydych yn credu bod unrhyw faterion ymarferol yn deillio o unrhyw rai o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf?**

## Cynnwys Deddf ddehongli i Gymru.

68. Pe ceid Deddf ddehongli i Gymru, mater allweddol fyddai i ba raddau y mae'r Ddeddf yn gwyro oddi wrth y darpariaethau yn Neddf 1978, neu'n mynd y tu hwnt iddynt. Fel y nodwyd eisoes, mae rhai darpariaethau yn Neddf 1978 y gallai fod angen eu dilyn yn agos er mwyn lleihau neu osgoi materion technegol neu ymarferol. A hyd yn oed pan fo mwy o ryddid i wyro oddi wrth y darpariaethau yn Neddf 1978, ceir dadleuon y dylai effaith y darpariaethau hyn, os nad y geiriau a ddefnyddir, gael eu hatgynhyrchu,.

69. Er hynny, byddai creu Deddf ddehongli i Gymru yn gyfle i wneud darpariaeth wahanol i'r ddarpariaeth a geir yn Neddf 1978, gan gynnwys darpariaeth gyfan gwbl newydd. Yn arbennig, byddai'n cynnig cyfle:

    a) i adlewyrchu materion sy'n codi yn Neddfau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny neu mewn perthynas â hwy, ac o bosibl ddeddfwriaeth arall sy’n bodoli yn Gymraeg.

    b) i ymdrin ag unrhyw faterion newydd y bernir eu bod yn deilwng o'u cynnwys mewn Deddf ddehongli;

    c) i ymestyn darpariaeth yn Neddf 1978 er mwyn iddi gwmpasu materion na ragwelwyd mohonynt pan gafodd y Ddeddf ei drafftio; ac

    d) i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion canfyddedig yng ngweithrediad Deddf 1978.

70. Yn y rhan nesaf rydym yn nodi amrywiaeth o ffyrdd y gallai Deddf Dehongli Cymru fynd y tu hwnt i Ddeddf 1978.

# RHAN 3: DEDDF DDEHONGLI NEWYDD I GYMRU: MODERNEIDDIO AC ARLOESI

71. Gan adeiladu ar Ran 2, mae'r penodau yn y Rhan hon yn ystyried ym mha ffyrdd y gallai Deddf ddehongli i Gymru foderneiddio ac arloesi[33];

    a) Mae Pennod 7 yn edrych ar newidiadau amrywiol y gellid eu gwneud i reolau craidd Deddf 1978 os cânt eu cario ar draws i Ddeddf ddehongli i Gymru.

    b) Mae Pennod 8 yn nodi ystod o ddarpariaethau newydd y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, na chynhwysir mohonynt yn Neddf 1978.

    c) Mae Pennod 9 yn edrych ar nifer o faterion eraill y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru.

72. Cyn ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer newid a nodir yn y Rhan hon, mae'n werth nodi bod rhai o'r Deddfau dehongli mewn awdurdodaethau eraill ledled y byd, a hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig, yn mynd y tu hwnt i ffiniau Deddf 1978, ac yn ymdrin ag ystod ehangach o faterion. Rhagwelodd cyd-adroddiad Comisiynau'r Gyfraith 1969 ar Ddehongli Statudau[34] rywbeth mwy radical na chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ddehongli gynharach a gafwyd yn y pen draw yn Neddf 1978 Yn gryno, mae ystod o safbwyntiau sy'n awgrymu bod cwmpas Deddf 1978 yn eithaf cyfyngedig, ac ategir hyn gan ddadansoddiad o Ddeddfau dehongli eraill.

73. Rydym yn credu bod cynnwys darpariaeth nad oes ganddi ddarpariaeth gyffelyb yn Neddf 1978 yn rhywbeth y mae angen ei ystyried fesul achos. Gyda phob darpariaeth bosibl newydd, y cwestiwn yn y pen draw ydyw a yw mantais cynnwys y ddarpariaeth honno mewn Deddf ddehongli newydd i Gymru yn drech na chost cymhlethu'r mater dwy Ddeddf.

74. Ond er y bydd gwahanol ddadleuon ynghylch cynnwys pob darpariaeth, mae'r egwyddorion canlynol yn gymwys:

    a) dylid bod yn ofalus cyn newid effaith sylweddol rheol graidd Deddf 1978, neu ei hepgor, gan y gallai arwain at broblemau yn ymarferol os

---

[33] Nid yw'r papur hwn yn ystyried i ba raddau y byddai Deddf ddehongli newydd i Gymru'n gymwys i ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli cyn i ddeddf o'r fath ddod i rym. Mae'n debygol na fyddai o leiaf rhywfaint o'r ddarpariaeth yn y Ddeddf honno sy'n wahanol i'r ddarpariaeth yn Neddf 1978 yn gymwys i ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli ymlaen llaw, petai'r Ddeddf honno'n gymwys o gwbl.

[34] L.C. Rhif 21, Scot. L.C. Rhif 11.

caiff y Ddeddf ddehongli anghywir ei chymhwyso, a byddai'n groes i'n nod o wella hygyrchedd;

b) gallai gwneud mân newid i reol graidd beri llai o broblem;

c) gellid ychwanegu darpariaeth gyfan gwbl newydd, yn dibynnu ar y ddarpariaeth o dan sylw, heb risg sylweddol o greu materion yn ymarferol.

Model newydd o Ddeddf ddehongli

75. Barn draddodiadol am Ddeddfau dehongli yn y pen draw yw y dylai darllenydd fod yn ymwybodol ohonynt, ac o natur y rheolau a'r diffiniadau a gynhwysir ynddynt, ond mai pur anaml y dylai orfod troi atynt. Mae'r farn draddodiadol hon wedi llywio ein barn am beth y dylai Deddf ddehongli i Gymru ei gynnwys.

76. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffordd y mae pobl yn cael mynediad at ddeddfwriaeth ac yn ei darllen wedi newid. Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth bellach yn cael ei darllen ar-lein, drwy'r defnydd o hyperddolenni a darparu gwybodaeth ar y sgrin y tu hwnt i gynnwys y ddeddfwriaeth ei hun, i dynnu sylw'r darllenydd at gynnwys Deddf berthnasol arall, gan gynnwys Deddf ddehongli. Gallai'r cysylltiadau rhwng darn o ddeddfwriaeth a Deddf ddehongli gael eu cyflwyno, yn ddamcaniaethol, mewn ffordd nad yw'n rhwystro hygyrchedd, ac a ddylai ei wella.

77. Gellid dadlau bod hyn yn golygu yn ei dro bod modd datgan mwy o wybodaeth unwaith mewn Deddf ddehongli, a chroesgyfeirio ati mewn Deddfau eraill. Gallai ystod o reolau, cynigion a diffiniadau, a fyddai, ar hyn o bryd, yn cael eu nodi'n llawn ym mhob Deddf gael eu nodi mewn Deddf ddehongli, gan wybod y gellid rhoi gwybod i'r darllenydd amdanynt ac y gallai gael gafael arnynt yn hawdd. Gallai hyn wella ymhellach fanteision Deddf ddehongli; sef, deddfwriaeth fwy cryno a gwell cysondeb. Wrth i ddarllenwyr droi'n rheolaidd at y Ddeddf ddehongli byddai ei bodolaeth a'i chynnwys yn dod yn fwy hysbys.

78. Mae hyn, er hynny, yn wyriad sylweddol oddi wrth y ffordd y mae Deddf 1978, a'r mwyafrif, os nad y cyfan o Ddeddfau dehongli eraill, yn gweithredu. Rydym yn cwestiynu a yw mantais dull gweithredu o'r fath yn drech na'r problemau y gallai eu hachosi. Yn arbennig, rydym yn credu y gallai dull gweithredu newydd o ran sut y cyflwynir deddfwriaeth ar y sgrin fod yn anghenraid, a allai arwain at fwy o faich i olygyddion gwefannau sy'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar-lein.

## Pennod 7: Newidiadau i ‘reolau craidd’ a allai gael eu gwneud wrth atgynhyrchu effeithiau Deddf 1978

79. Rydym o'r farn, wrth atgynhyrchu effeithiau Deddf 1978 mewn Deddf ddehongli i Gymru, y dylid ystyried y newidiadau canlynol (mae'r cyfeiriadau at adrannau isod yn gyfeiriadau at adrannau yn Neddf 1978):

   a) Gallai adran 6(a) a (b) (rhywedd) gael ei hepgor, gan ei bod yn groes i'r arfer o ddrafftio mewn ffordd niwtral o ran rhywedd sydd wedi'i mabwysiadu mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol a Deddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny[35]. Rydym hefyd yn nodi nad yw'r adran hon yn cael ei hatgynhyrchu yn Neddf Dehongli yr Alban. Er hynny, ceir materion penodol mewn perthynas â'r defnydd o genedl ramadegol yn Gymraeg, y byddai angen eu hystyried.

   b) Dylai Adran 7 (cyflwyno drwy'r post) gael ei diweddaru i ymdrin â chyfathrebu electronig. Mae'r adran hon yn cael ei diweddaru yn Neddf Dehongli yr Alban.

   c) Gallai adran 8 (pellter) gael ei hepgor; nid atgynhyrchir yr adran hon yn Neddf Dehongli yr Alban ar y sail mai pur anaml y dibynnir arni, ac y gellir ymdrin â hi felly yn ôl yr angen[36].

   d) Gallai adran 10 (cyfeiriadau at y Sofren) gael ei hepgor; nid atgynhyrchir yr adran hon yn Neddf Dehongli yr Alban ar y sail nad oes ei hangen[37].

   e) Gallai adran 13 (rhagddisgwyl arfer pwerau) gael ei hegluro, a chawn ar ddeall na dderbynnir arni mor aml ag y gellid oherwydd amheuon am ei therfynau.

   f) Gallai adran 15 (diddymu diddymu) gael ei hymestyn i atal rheolau rhag cael eu hadfer yn y gyfraith gyffredin.

---

[35] Mae paragraff 22.1.9 o *Craies on Legislation (11$^{th}$ ed)* yn nodi *‘the publicly proclaimed adoption of a gender-neutral style has probably displaced section 6(a) and (b) for all practical purposes in the construction of legislation drafted since the policy came into effect’* [Greenberg, D (2012) *Craies on Legislation, 11$^{1h}$ Ed.* Llundain. Sweet and Maxwell]

[36] Mae *Craies on Legislation (11$^{th}$ ed)* yn cefnogi'r haeriad hwn i ryw raddau o leiaf. Ym mharagraff 22.1.13 dywedir *‘[i]t is likely that rebuttal of this presumption would be implied in most circumstances in which the presumption would not itself be supplied by common sense’.* [Greenberg, D (2017) Craies on *Legislation, 11th Ed.* Llundain. Sweet and Maxwell]

[37] Mae *Craies on Legislation (11$^{th}$ ed)* yn cefnogi’r haeriad hwn ym mharagraff 22.1.1: *This provision … would stand to reason were it not expressed…’* [Greenberg, D (2017) Craies on *Legislation, 11th Ed.* Llundain. Sweet and Maxwell]

g) Dylai testun Deddf ddehongli i Gymru ymgorffori effaith adran 23B (cymhwyso Deddf 1978 i Gymru) er mwyn i'r testun adlewyrchu’n gywir gymhwysiad y Ddeddf honno.

| |
|---|
| **Cwestiwn 5: Beth yw'ch safbwyntiau am y newidiadau posibl i'r ‘rheolau craidd’, a nodir ym Mhennod 7?** |

# Pennod 8: Darpariaeth newydd a allai gael ei gwneud mewn Deddf ddehongli i Gymru

80. Mae'r rhestr ganlynol yn nodi effeithiau ystod o ddarpariaethau y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, ond na chynhwyswyd mohonynt yn Neddf 1978. Lle mae'r awgrymiadau'n adlewyrchu darpariaeth a gynhwysir yn Neddfau Dehongli yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu yn un o Ddeddfau eraill Senedd y DU, nodir hyn.

## Rheolau am bwerau a nodir yn Neddfau'r Cynulliad Cenedlaethol.

- **Caniateir i bwerau gael eu harfer yn wahanol mewn perthynas â gwahanol achosion neu ddibenion.** Byddai hyn yn weithredol lle mae Gweinidogion Cymru (neu unrhyw berson arall) yn arfer pŵer a roddir gan un o Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn arbennig pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae darpariaeth sy'n cyflawni'r canlyniad hwn yn gyffredin mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

- **Caniateir i bwerau i ddwyn deddfwriaeth i rym gael eu defnyddio i benodi gwahanol ddiwrnodau ar gyfer gwahanol ddibenion.** Mae darpariaeth sy'n cyflawni'r canlyniad hwn yn gyffredin mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae Adran 8 o Ddeddf Dehongli yr Alban yn cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn.

- **Rhaid i bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion (ac o bosibl ffurfiau eraill ar is-ddeddfwriaeth) gael eu harfer bob tro drwy wneud offeryn statudol.** Mae darpariaeth i'r perwyl hwn bron bob amser yn cael ei chynnwys mewn Deddfau. Mae darparu bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud drwy offeryn statudol yn golygu bod y prosesau a nodir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 ar gyfer craffu ar gynnwys offerynnau statudol, ac ar gyfer eu cyhoeddi a'u lledaenu, yn gymwys.

- **Pŵer i ddiwygio Deddfau i ddisodli cyfeiriad at ddyddiad pryd y mae digwyddiad yn digwydd â'r dyddiad gwirioneddol y digwyddodd y digwyddiad hwnnw.** Er enghraifft, lle mae adran mewn Deddf yn darparu y caniateir rhywbeth *'y diwrnod ar ôl i adran 10 dod i rym'*, ac mae adran 10 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018, gallai'r Ddeddf gael ei diwygio i ddisodli*'r diwrnod ar ôl i adran 10 dod i rym*, â *'y diwrnod ar ôl 1 Ionawr 2018'*. Mae Adran 104 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015, sy'n gymwys yn unig mewn perthynas â Lloegr, yn cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn.

- **Mae pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn cynnwys pŵer ategol i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol neu drosiannol.** Mae darpariaeth i'r perwyl

hwn bron bob amser yn cael ei chynnwys ym mhob Deddf sy'n darparu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.

- **Mae pwerau i benodi person i swydd yn cynnwys pwerau cysylltiedig.** Câi hyn ei ddefnyddio lle byddai deddfwriaeth yn sefydlu swydd newydd. Byddai ei bodolaeth yn golygu na fyddai angen gwneud darpariaeth bellach gysylltiedig ond amlwg; er enghraifft, pwerau i ddiswyddo person, ailbenodi ac yn y blaen. Mae Adran 5 o Ddeddf Dehongli yr Alban yn cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn.

- **Caniateir cyfuno pwerau i wneud deddfwriaeth sy'n destun gwahanol weithdrefnau yn yr un offeryn statudol.** Yn aml mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol arfer ystod o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar yr un pryd, ond mae'r is-ddeddfwriaeth weithiau'n destun gweithdrefnau craffu gwahanol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth o'r fath gael ei gosod ynghyd mewn un offeryn statudol, a fyddai'n fwy cyfleus o safbwynt gweinyddu.

- **Y pŵer i gywiro gwallau amlwg mewn deddfwriaeth.** Weithiau, gwneir gwallau mewn deddfwriaeth, ac yn achos Deddf nid oes modd cywiro hyn yn hawdd (gan mai dim ond Deddf all ddiwygio Deddf fel rheol). Gallai'r pŵer i gywiro gwallau amlwg gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth fod yn ddefnyddiol, a byddai'n cynorthwyo pawb y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Byddai'n helpu hefyd i osgoi gosod y llysoedd mewn sefyllfaoedd anodd pan fydd gwallau o'r fath yn eu hwynebu[38].

## Amser

- **Cyfrifo amser mewn perthynas ag eisteddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.**

- **Cyfrifo cyfnodau amser.** Byddai hyn yn helpu i osgoi'r ddarpariaeth eithaf manwl y mae ei hangen weithiau wrth ddisgrifio cyfnod o amser. Er enghraifft, gallai Deddf ddehongli ddarparu bod cyfnod y nodir ei fod yn dechrau ar ôl digwyddiad penodol yn mynd i ddechrau ar ddechrau diwrnod y digwyddiad. Mae Adran 39 o Ddeddf Dehongli Gogledd Iwerddon yn darparu enghraifft o ddarpariaeth o'r fath.

[38] Caiff y llysoedd fynd i'r afael â gwallau mewn deddfwriaeth os ydynt yn siŵr am *(1) the intended purpose of the statute or provision in question; (2) that by inadvertence the draftsman and Parliament failed to give effect to that purpose in the provision in question; and (3) the substance of the provision Parliament would have made, although not necessarily the precise words Parliament would have used, had the error in the Bill been noticed.' Inco Europe Ltd and others v First Choice Distribution (a firm) and others* [2000] 2 All ER 109

## Diffiniadau

- ‘Awdurdod Lleol’; ‘ysbyty’; ‘Ymddiriedolaeth y GIG’: rhagwelwn y byddai diffiniad cyffredinol o'r termau hyn yn eu cyfyngu fel mai at gyrff yng Nghymru yn unig y byddant yn cyfeirio.

- ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’; ‘Y Cynulliad’; ‘Comisiwn y Cynulliad’.

- ‘Deddfwriaeth Sylfaenol’; ‘is-ddeddfwriaeth’; ‘deddfwriaeth ddatganoledig’; ‘deddfiad’.

- ‘Diwrnod gwaith’.

## Cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru neu eraill

- **Gall cyfarwyddydau gael eu diwygio neu eu tynnu yn ôl.** Byddai hyn yn darparu cysondeb ac yn dileu amheuaeth am rywbeth sydd yn ôl pob tebyg yn fater o synnwyr cyffredin.

- **Rhaid i gyfarwyddydau gael eu rhoi yn ysgrifenedig.**

## Amrywiol

- **Materion sy'n ymwneud â chyfathrebu electronig.** Er enghraifft, ynghylch pa amodau y mae angen eu bodloni cyn y gellir dibynnu ar e-bost fel ffordd o gyflwyno dogfen, neu roi hysbysiad etc.

- **Cymhwyso i'r Goron.** Byddai hyn yn mynd i'r afael â mater sy'n cael ei lywodraethu ar hyn o bryd gan y gyfraith gyffredin, drwy ddarparu bod y Goron yn cael ei rhwymo gan Ddeddf oni wneir darpariaeth i'r gwrthwyneb (neu fel arall). Mae Adran 20 o Ddeddf Dehongli yr Alban yn ymdrin â'r mater hwn.

- **Nid yw ffurfiau sy'n wahanol i'r ffurf sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn annilys.** Mae Adran 21 o Ddeddf Dehongli yr Alban yn cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn.

| |
|---|
| **Cwestiwn 6: Beth yw eich barn am y darpariaethau newydd posibl y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, a nodir ym Mhennod 8?** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 7: A oes unrhyw ddarpariaethau newydd ychwanegol at y rhai a nodir ym Mhennod 8, yr hoffech eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru?** |

# Pennod 9: Materion eraill y gellid mynd i'r afael â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru

## Materion y Gymraeg

81. Rydym yn ystyried a fyddai darpariaeth ar gyfer ymdrin â materion sy'n codi mewn perthynas â'r Gymraeg yn unig o gymorth. Yn benodol, rydym yn ystyried darpariaeth ynghylch cymhwyso diffiniadau a rheolau eraill yn gyson ni waeth am amrywiadau mewn terminoleg sy'n codi o ganlyniad i dreigladau neu genedl; ac rydym yn ystyried darpariaeth ynghylch cymhwysiad y gyfraith gyffredin a chysyniadau yn y gyfraith gyffredin (a grybwyllir fel rheol drwy gyfeirio at ddywediadau ag ystyron penodol sy'n bodoli mewn Saesneg yn unig).

82. Byddai modd ymdrin â'r materion hyn mewn ffordd wedi'i thargedu, gyda darpariaeth a fyddai'n ymdrin â'r materion penodol hyn. Posibilrwydd arall fyddai cael darpariaeth fwy cyffredinol ynghylch sut i ddehongli amrywiadau ieithyddol sy'n codi oherwydd rheolau gramadegol. Ceir enghreifftiau o hyn mewn Deddfau Dehongli eraill mewn awdurdodaethau sydd â deddfwriaeth ddwyieithog. Er enghraifft mae Ordinhad Dehongli a Chymalau Cyffredinol Hong Kong[39] yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymdrin â materion dwyieithog. Mae Adran 5 o'r Ddeddf honno'n darparu fel a ganlyn: *‘Where any word or expression is defined in any Ordinance, such definition shall extend to the grammatical variations and cognate expressions of such word or expression.’*

83. Bu inni edrych hefyd ar adran 33(3) o Ddeddf Dehongli Canada[40] sy'n darparu: *‘Where a word is defined, other parts of speech and grammatical forms of the same word have corresponding meanings.’*

84. Gallai darpariaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol, ond byddai angen iddi fod yn gymwys yn gyfartal i'r ddwy iaith (hyd yn oed os gellir dadlau y byddai'n fwy defnyddiol mewn perthynas â’r Gymraeg), ac mae'n faes lle gallai diffyg darpariaeth o'r fath yn Neddf 1978 arwain at broblemau yn ymarferol. Am y rhesymau hyn rydym yn parhau i ystyried rhinweddau darpariaeth o'r math hwn.

## Darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a allai gael eu rhoi mewn Deddf ddehongli i Gymru, gydag addasiad neu heb addasiad.

85. Mae nifer o ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â dehongli deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol a allai gael eu hailddatgan[41] mewn Deddf ddehongli i Gymru:

---

[39] E.R. 1 o 2017.
[40] R.S.C., 1985, c. I-21.

a) adran 154 (dehongli deddfwriaeth yn gul er mwyn bod o fewn cymhwysedd),
b) adran 156 (testun Cymraeg a Saesneg), a
c) adran 158 (dehongli Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

86. Gallai'r ddarpariaeth yn adran 156(2)[42] gael ei diddymu, a'i disodli efallai â rhywbeth mewn Deddf ddehongli i Gymru sy'n fwy priodol a defnyddiol, megis rhywbeth am ddatrys amwysedd yn gyffredinol. Fel y saif mae'r adran hon yn canolbwyntio ar addasu'r Gymraeg i gyd-fynd â'r Saesneg, sydd fel petai'n groes â chydraddoldeb y ddwy iaith.

## Darpariaeth ffurf safonol

87. Drwy'r holl gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (a'r tu hwnt) mae rhai materion yn codi yn rheolaidd, ar draws ystod o ddeddfwriaeth yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau. Mae enghreifftiau'n cynnwys hysbysiadau cosb benodedig, pwerau mynediad a/neu arolygu a sefydlu corff neu swydd statudol. Gall y ddarpariaeth sy'n ymdrin â'r agweddau technegol ar y materion hyn fod yn eithaf cymhleth neu hir. Gan nad ymdrinnir â hwy mewn unrhyw Ddeddf ddehongli i Gymru, neu mewn unrhyw Ddeddf arall sy'n delio â'r materion hyn at ddibenion cyffredinol, rhaid ymdrin â hwy mewn deddfwriaeth yn llawn bob tro y maent yn codi.

88. Er bod y materion hyn yn codi'n aml, nid ydynt bob amser yn cael eu mynegi yn union yr un ffordd ym mhob Deddf. Mae hyn weithiau oherwydd y bwriedir i'r darpariaethau ynghylch, er enghraifft, bwerau i roi hysbysiadau cosb benodedig mewn un Ddeddf gael effaith wahanol i'r darpariaethau ar hysbysiadau cosb benodedig mewn Deddf arall. Er hynny, mae amrywiadau weithiau yn y geiriad hyd yn oed lle na fwriedir i effaith gyfreithiol y geiriau a ddefnyddir mewn un Ddeddf fod yn wahanol i'r effaith gyfreithiol o dan Ddeddf arall.

89. Un ffordd o ymdrin â'r mater hwn fyddai sefydlu setiau o ddarpariaethau, mewn Deddf ddehongli i Gymru, sy'n ymdrin â'r materion rheolaidd hyn. Byddai'r setiau hyn o ddarpariaethau'n adlewyrchu'r ffurfiau mwyaf cyffredin ar y gyfraith, fel y gellid eu defnyddio mewn cymaint o amgylchiadau â phosibl. Gellid cyfeirio at y 'ddarpariaeth ffurf safonol' wedyn yn ôl y gofyn gan ddeddfwriaeth arall lle

[41] Rydym yn nodi, o dan baragraff 5 yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, na all Deddf y Cynulliad (a thrwy hynny Deddf Ddehongli i Gymru) addasu adrannau 154, 156(1) a 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
[42] Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu drwy orchymyn mewn perthynas ag unrhyw air neu ymadrodd, pan ymddengys yn nhestun Cymraeg unrhyw Ddeddf neu Fesur Cynulliad, fod rhaid deall bod iddo'r un ystyr â'r gair neu'r ymadrodd Saesneg a bennir mewn perthynas ag ef yn y gorchymyn.

byddai'r mater neu faterion yn codi ac ni fyddai angen bellach nodi'r cysyniadau o'r newydd bob tro[43].

90. Hyd yn oed pe na bai'r ddarpariaeth ffurf safonol mewn unrhyw faes penodol yn gyfan gwbl briodol mewn achos arbennig, byddai'n fan cychwyn defnyddiol y gellid ei amrywio yn ôl yr angen. Oherwydd hyn byddai darpariaeth yn y maes hwn yn dal yn gyson lle byddai'r un effaith yn ddymunol, a byddai unrhyw amrywiadau'n glir, ac yn gyfyngedig i'r graddau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.

91. Byddai hyn, er hynny, yn ymestyn cwmpas Deddf ddehongli i Gymru y tu hwnt i gwmpas Deddfau dehongli eraill. Byddai angen ystyried goblygiadau hyn. Mae'n bosibl hefyd mai nifer bach o faterion yn unig, os o gwbl, fyddai'n addas o safbwynt creu darpariaeth ffurf safonol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 8: Beth yw eich barn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru, fel y'u nodir ym Mhennod 9?** |

[43]Mae'r cysyniad hwn yn bodoli eisoes yn y Deyrnas Unedig, i ryw raddau o leiaf. Gweler Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, sy'n rhoi i Llywodraeth y DU set gyfyngedig iawn o bwerau, sy'n caniatáu ar gyfer amrywio cyfyngedig yn unig, i roi'r gallu i ystod eang o bersonau sydd â swyddogaethau rheoleiddiol i orfodi cosbau sifil mewn perthynas ag ystod o droseddau ar draws amrywiaeth eang o feysydd cyfreithiol (Iechyd a Diogelwch, cyfraith amgycheddol, tai, dilysnodi ac yn y blaen). O ganlyniad, mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu darpariaethau y gellir galw arynt wrth lunio cyfundrefnau newydd ar gyfer cosbau sifil.

## Asesiadau effaith

92. Mae manteision ac effeithiau diwygio posibl o safbwynt y Gymraeg yn cael eu nodi yn y papur hwn, ond mae cwestiynau 9 a 10 yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gofyn eich barn am effeithiau'r polisi arfaethedig.

93. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer yr ymgynghoriad polisi hwn. Mae copi i'w gael ar wefan yr ymgynghoriad. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau.

94. Os bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati yn y dyfodol gyda deddfwriaeth ddehongli statudol, bydd angen paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gostau a manteision y dull a ddewisir. Nid ydym yn rhagweld ar unwaith y byddai Deddf ddehongli newydd i Gymru yn achosi costau i'r sector cyhoeddus neu eraill, ond byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau ar gostau posibl neu oblygiadau eraill o ran adnoddau, er mwyn inni ymchwilio i'r rhain ymhellach.

95. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych wedi nodi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol (gan gynnwys effeithiau posibl nad ydym wedi ymdrin â hwy) mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle ichi nodi'r rhain ar y diwedd.

## Atodiad A: Rheolau craidd yn Neddf Dehongli 1978

| ***Adran yn Neddf 1978*** | ***Natur y ddarpariaeth*** |
|---|---|
| 4 | Amseru pryd y daw darpariaethau mewn Deddfau i rym |
| 6 | cyfeiriadau at rywedd (e.e.) *‘ef* neu *‘hi’*) |
| 6 | Cyfeiriadau at yr unigol neu'r lluosog |
| 7 | Cyflwyno dogfennau drwy'r post |
| 8 | Mesur pellter |
| 9 | Cyfeiriadau at amser o’r dydd |
| 10 | Cyfeiriadau at y Sofren |
| 11 | Dehongli is-ddeddfwriaeth |
| 12 | Arfer pwerau statudol gan ddeiliaid swyddi |
| 13 | Arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth cyn i bŵer ddod i rym |
| 14 | Mae'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn cynnwys pŵer i ddiwygio etc. pethau a wnaed yn flaenorol o dan y pŵer hwnnw. |
| 14A | Caiff is-ddeddfwriaeth wneud darpariaeth ynghylch adolygu a/neu ‘machlud’[44] |
| 15 | Effaith diddymu diddymiad |
| 16 | Effaith diddymu |
| 17 | Diddymu ac ailddeddfu |
| 18 | Os oes rhywbeth yn drosedd o dan ddwy ddeddf neu ragor, dim ond unwaith y gellir cosbi'r troseddwr |
| 19 | Cyfeirio at Ddeddf mewn Deddf arall |
| 20 | Cyfeiriadau mewn Deddfau at rannau penodol o ddeddfwriaeth arall |
| 20A | Cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at offerynau'r UE |

[44]Mae darpariaeth ‘machlud’ mewn deddfwriaeth yn ddarpariaeth sy'n daparu bod effaith rhywfaint neu'r cyfan o'r ddeddfwriaeth honno'n dod i ben ar adeg benodol.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Corff (lle y bo'n briodol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** A ddylem fewnosod atgynhyrchiad o Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg yn y ddeddf honno neu a ddylem geisio cymhwyso Deddf ddehongli i Gymru i gymaint o ddeddfwriaeth Gymraeg â phosibl?

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno â manteision posibl Deddf ddehongli i Gymru a nodir yn y papur ymgynghori hwn?

**Cwestiwn 3:** Pa un o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf fyddai fwyaf defnyddiol yn eich barn chi i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn credu bod unrhyw faterion ymarferol yn deillio o unrhyw rai o'r atebion posibl i'r mater dwy Ddeddf?

**Cwestiwn 5:** Beth yw'ch safbwyntiau am y newidiadau posibl i'r 'rheolau craidd', a nodir ym Mhennod 7?

**Cwestiwn 6:** Beth yw eich barn am y darpariaethau newydd posibl y gellid eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, a nodir ym Mhennod 8?

**Cwestiwn 7:** A oes unrhyw ddarpariaethau newydd ychwanegol at y rhai a nodir ym Mhennod 8, yr hoffech eu cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru?

**Cwestiwn 8:** Beth yw eich barn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy mewn Deddf ddehongli i Gymru, fel y'u nodir ym Mhennod 9?

**Cwestiwn 9:** Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai datblygu Deddf ddehongli i Gymru yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â:

i) helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a
ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleddfu effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 10:** Esboniwch hefyd sut y gallai'r Ddeddf ddehongli arfaethedig i Gymru gael ei llunio neu ei newid er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a
ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin

y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Cwestiwn 11:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, byddwch cystal â'u nodi yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐